

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau o'r enw Tawelu'r traffig: Effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau

Mae tagfeydd eisoes yn effeithio ar yr economi, yr amgylchedd ac ar iechyd pobl Cymru. Oni chânt eu datrys, ac oni fyddwn yn cydnabod bod rhagolygon ynglŷn â'r galw'n dangos y bydd y nifer sy'n defnyddio'r ffyrdd yn parhau i gynyddu, mae'n anochel y bydd yr effeithiau hynny'n gwaethygu. Dyna pam y mae mynd i'r afael â thagfeydd yn flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arni. Mae'n rhan annatod o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Rydym wedi rhoi amryw o fesurau ar waith eisoes i helpu i fynd i'r afael â thagfeydd ac i helpu i wella prydlondeb gwasanaethau bysiau, er enghraifft, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu pŵerau i ymdrin â thramgwyddau parcio, lonydd bysiau a thraffig sy'n symud.

Bydd tagfeydd yn fater penodol a fydd yn cael ei drafod mewn gweithdai gyda'n partneriaid yn ddiweddarach eleni yn sgil Uwchgynhadledd Fysiau gyntaf Cymru yn Wrecsam, a fu'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn.

Yn ogystal, rwyf wedi cyhoeddi cyfres o raglenni ynghylch mannau cyfyng, gan gynnwys un ar gyfer y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, ac un ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd lleol. Mae angen i'n rhwydwaith trafnidiaeth fod yn gynaliadwy, a dyna pam y mae'r astudiaethau ynghylch mannau cyfyng wedi'u cynllunio i ystyried amryw o ddatrysiadau i broblemau tagfeydd, o drafnidiaeth gyhoeddus i deithio llesol.

Rwy'n croesawu adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ac mae ymateb manwl iddo dros y dudalen.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, ar fyrder, ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael ag effeithiau tagfeydd traffig ar y diwydiant bysiau yng Nghymru. Dylai'r cynllun gynnwys:

1. Cydnabyddiaeth o raddfa a maint effeithiau tagfeydd ar y diwydiant bysiau yng Nghymru, ac ymrwymiad cadarn i fynd i'r afael â'r mater.
2. Cyfeiriad strategol clir ar gyfer awdurdodau priffyrdd a gweithredwyr bysiau ar y camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau tagfeydd ar wasanaethau bysiau.
3. Manylion ymrwymiad y Gweinidog i wneud gwaith pellach i ddeall yr achosion sydd wrth wraidd y mater, gan gwmpasu ardaloedd trefol a gwledig. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lunio'r atebion gofynnol.
4. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â gweithredwyr bysiau i ddatblygu a gweithredu mesurau blaenoriaeth i fysiau, gan gynnwys newidiadau i gyllid er mwyn sicrhau atebion hirdymor, cynaliadwy.
5. Gofynion gan Lywodraeth Cymru i weithredwyr bysiau fod yn fwy tryloyw ac agored am eu referniw fel un o amodau derbyn cymorth o dan y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau.
6. Canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i sefydlu a gwneud y gorau o effeithiolrwydd cynlluniau partneriaeth ansawdd bysiau. Awgrymiadau ynghylch sut y gall awdurdodau lleol weithio mewn ffordd drawsffiniol, gan ddefnyddio dulliau newydd a phresennol, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â thagfeydd sy'n effeithio ar wasanaethau bysiau ar sail ranbarthol.
7. Aseiad o'r ystod lawn o offer sydd ar gael a pha mor ddefnyddiol y gallent fod wrth fynd i'r afael ag effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys: gweithredu cynlluniau parcio a theithio, taliadau i leddfu tagfeydd, taliadau parcio uwch, ardollau parcio yn y gweithle, a mesurau blaenoriaeth i fysiau.
8. Cynlluniau ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol i annog newid moddol mewn dewisiadau trafndiaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod yr heriau unigryw a gyflwynir gan wahanol leoliadau. Rhaid i hyn werthu manteision teithio ar fws lle mae hwn yn opsiwn ymarferol. Mae annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio eu ceir o blaid bysiau yn gam hollbwysig wrth ddarparu gwasanaeth bysiau cynaliadwy, o ansawdd uchel, dibynadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ystyriaeth

- 1 Cydnabyddiaeth o raddfa a maint effeithiau tagfeydd ar y diwydiant bysiau yng Nghymru, ac ymrwymiad cadarn i fynd i'r afael â'r mater.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod yr effeithiau niweidiol y mae tagfeydd traffig yn eu cael ar ddbynadwyedd a phrydlondeb gwasanaethau bysiau. Mae'r effeithiau hynny, yn eu tro, yn annog y rhai sy'n teithio ar fysiau i beidio â pharhau i deithio arnynt, ac yn annog darpar deithwyr i beidio â rhoi cynnig ar deithio ar fysiau. Rydym wedi ymrwmo i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru a byddwn yn ymgymryd â gwaith pellach i sicrhau bod graddfa a maint yr effeithiau'n hysbys. Bydd datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth nesaf Cymru yn cynnwys gwaith i ystyried y mater.

Gostyngodd nifer y gwasanaethau bysiau cofrestredig o 1,943 ym mis Mawrth 2005 i 1,058 ym mis Mawrth 2015 (adroddiadau'r Comisiynydd Traffig), a gostyngodd nifer y teithiau gan deithwyr ar fysiau oddeutu 19% rhwng 2008 a 2015. Er nad oes modd priodoli'r tueddiadau hyn i dagfeydd traffig yn unig, rydym yn cydnabod bod cyflymder cyfartalog bysiau wedi gostwng. Er enghraifft, cyflwynodd Stagecoach dystiolaeth i'r pwyllgor a ddangosodd fod cyflymder bysiau wedi gostwng 2 mya rhwng 1995 a 2015, gan olygu bod angen cerbydau ychwanegol er mwyn cynnal lefelau'r gwasanaethau.

Gan gydnabod y tueddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid refeniw sylweddol i gefnogi'r rhwydwaith bysiau yng Nghymru. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, bydd awdurdodau lleol yn dosbarthu £25 miliwn a ddyrannwyd iddynt o dan gynllun y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau, i'w helpu i roi cymhorthdal i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol nad ydynt yn cael eu darparu'n fasnachol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfle i leihau effaith tagfeydd drwy ddarparu seilwaith priodol, ac mae'n ymrwmo elfen sylweddol o gyllid cyfalaf at y diben hwn, gan gynnwys:

- Y Gronfa Trafnidiaeth Leol, sy'n cynnwys mesurau i gynorthwyo gyda llif bysiau.
- Y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol (sydd â chyfanswm o £2.8 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon) ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â bysiau yn benodol;
- Cyllid i ddileu manau cyfyng (sef pecyn amflwydd sy'n werth £48 miliwn) er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd ar y rhwydwaith, gan gynnwys bysiau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

- 2 Cyfeiriad strategol clir ar gyfer awdurdodau priffyrdd a gweithredwyr bysiau ar y camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau tagfeydd ar wasanaethau bysiau.

Ymateb: Derbyn

Ac eithrio yn achos y Rhwydwaith Cefnffyrdd, Awdurdodau Lleol yw'r Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac mae'n darparu cyfeiriad strategol drwy ddatblygu polisiau ac amodau ariannu.

Mae'r broses o ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn creu cyfle i bwysleisio pwysigrwydd dulliau o liniaru tagfeydd yn rhwydwaith bysiau Cymru. Disgwylir i'r ddogfen hon gael ei chwblhau yn 2019.

Mae'r canllawiau ynglŷn â'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn cynnwys amcanion i wella cysylltedd drwy gyfrwng seilwaith cynaliadwy a gwydn. Roedd y ceisiadau llwyddiannus a oedd yn cyflawni'r gofynion hyn yn cynnwys y cynlluniau a ganlyn:

- Yng Nghaerffili, i leihau'r tagfeydd yng nghylchfan Pwll-y-pant, lle y mae llwybrau bysiau strategol yn cydlifo
- Yng Nghaerdydd, ar gyfer gwaith gwella cyffyrdd ar Goridor Bysiau'r Dwyrain yng Nghyffordd Fitzalan Place/Heol Casnewydd
- Yn Sir Gaerfyrddin, i wella'r seilwaith yn y gyffordd canol tref ar gefnffordd yr A483 er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd
- Yn Sir y Fflint, i wella cyfleusterau bysiau a'u gweithrediad yng nghoridor Shotton
- Gwelliannau yng Nghastell-nedd Port Talbot i'r coridorau bysiau sy'n cael blaenoriaeth rhwng Port Talbot a Margam
- Yn Sir Benfro, ar gyfer gwelliannau i'r dull o gyrraedd canol tref Abergwaun. Gwelliannau i wella llif y traffig ar y cefnffyrdd.

Mae gan awdurdodau (priffyrdd) lleol bwerau yn ôl disgrisiwn i helpu i fynd i'r afael â thagfeydd traffig – yn benodol, tramgwyddau parcio, lonydd bysiau, a thraffig sy'n symud. Hyd yma, dim ond Cyngor Caerdydd sydd wedi gwneud cais am y pwerau hyn ac sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â phob tramgwydd o'r fath, er bod mwyafrif yr awdurdodau (priffyrdd) lleol wedi mabwysiadu pwerau i fynd i'r afael â thramgwyddau parcio, sy'n gallu amharu ar lif traffig.

Byddwn yn ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol o fewn y mis nesaf i dynnu sylw at y mentrau hyn.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

- 3 Manylion ymrwymiad y Gweinidog i wneud gwaith pellach i ddeall yr achosion sydd wrth wraidd y mater, gan gwmpasu ardaloedd trefol a gwledig. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lunio'r atebion gofynnol.

Ymateb: Derbyn

Gan gydnabod argymhelliad y Pwyllgor y dylid gwneud gwaith pellach i ddeall yr hyn sydd wrth wraidd tagfeydd, byddwn yn gofyn i'n partneriaid – gan gynnwys awdurdodau lleol a'r diwydiant bysiau – i gyflwyno adroddiadau ac egluro'r rhesymau sydd wrth wraidd tagfeydd yn eu hardaloedd nhw, cyn y gyfres o weithdai y bwriedir eu cynnal yn yr hydref yn 2017. Bydd hyn yn peri bod modd llunio crynodebau yn ystod y gweithdai ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig, ynghyd ag argymhellion ynglŷn â mynd i'r afael â thagfeydd yn yr amgylcheddau gwahanol hynny.

Bydd gweithdai hydref 2017 yn cael eu cynnal mewn 4 lleoliad amrywiol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod yr heriau penodol a achosir gan dagfeydd traffig mewn ardaloedd trefol a gwledig yn cael eu hystyried. Bydd y gweithdai hefyd yn cynnwys gweithgareddau i ganfod datrysiadau penodol, gan ddefnyddio profiadau awdurdodau (priffyrdd) lleol a gweithredwyr bysiau.

Bydd canlyniadau'r gweithdai'n llywio polisiau a chymau gweithredu'r dyfodol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

4 Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â gweithredwyr bysiau i ddatblygu a gweithredu mesurau blaenoriaeth i fysiau, gan gynnwys newidiadau i gyllid er mwyn sicrhau atebion hirdymor, cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Cynghrair Integreiddio yn ddiweddar ar gyfer ardal Metro De Cymru, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, gweithredwyr Bysiau a Grwpiau Defnyddwyr er mwyn hwyluso trefniadau ar gyfer gweithio'n agosach. Gellid cyflwyno'r model hwn yn ehangach. Mae'r Bwrdd Cynghrair Integreiddio wedi nodi nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys canfod coridorau bysiau strategol a'u datblygu. Bydd hwn yn ddull o dynnu sylw at deithio ar fysiau yng Nghymru, gan gynnwys cyfleoedd i hwyluso gwell dibynadwyedd gan wasanaethau.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gynllun 5 pwynt i gynorthwyo'r diwydiant Bysiau yng Nghymru ym mis Awst 2016. Roedd hwn yn cynnwys cyllid er mwyn i Awdurdodau Lleol benodi cydgysylltwyr bysiau yn y Gogledd a'r De. Mae eu cylch gwaith yn cynnwys hyrwyddo gwaith agosach rhwng rhanddeiliaid i ddatblygu partneriaethau bysiau o ansawdd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried cyfleoedd i fynd ati'n well i gydgyssylltu dyraniadau cyllid o'r Gronfa (gyfalaf) Trafnidiaeth Leol a'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (refeniw). Y nod yw annog awdurdodau

cyhoeddus i fabwysiadu dull o fuddsoddi sydd wedi'i dargedu er mwyn uchafu'r effeithiau manteisiol. Er enghraifft, byddai gwelliannau i wasanaethau llwybrau neu goridorau'n cael eu hategu gan seilwaith cysylltiedig – fel mesurau blaenoriaeth i fysiau.

Mae'r nod hwn yn cyd-fynd â dull gweithredu ehangach sy'n cael ei ystyried, sef dyrannu'r holl Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau dim ond i gynorthwyo gwasanaethau bysiau a fyddai'n rhan o Bartneriaeth Bysiau o Ansawdd rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr (gwirfoddol neu statudol).

Pan fo'r gwaith o gyd-gysylltu dyraniadau o dan y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau a'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn well wedi'i gwblhau, bydd canllawiau a ddiweddarwyd yn cael eu cyflwyno.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

5 Gofynion gan Lywodraeth Cymru i weithredwyr bysiau fod yn fwy tryloyw ac agored am eu refeniw fel un o amodau derbyn cymorth o dan y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau.

Ymateb: Derbyn

Yn ddealladwy iawn, bydd gweithredwyr bysiau'n awyddus i sicrhau bod gwybodaeth fasnachol sensitif ynglŷn â'u gwasanaethau'n cael ei diogelu, a chynorthwyr hynny drwy leihau i'r eithaf nifer y sefydliadau neu'r lefelau a fyddai'n gallu gweld y data hyn.

Gan mai awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, o 1 Ebrill 2018, ganfod y refeniw y rhagwelir y bydd yn cronni i weithredwr o bob llwybr y mae'r gweithredwr hwnnw wedi ceisio Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau ar ei gyfer.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

6 Canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i sefydlu a gwneud y gorau o effeithiolrwydd cynlluniau partneriaeth ansawdd bysiau. Awgrymiadau ynghylch sut y gall awdurdodau lleol weithio mewn ffordd drawsffiniol, gan ddefnyddio dulliau newydd a phresennol, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â thagfeydd sy'n effeithio ar wasanaethau bysiau ar sail ranbarthol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau manwl i awdurdodau lleol eisoes sy'n eu hannog i ystyried mwy o weithio mewn partneriaeth, a gwaith partneriaeth agosach, gyda gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol cyfagos. Mae canllawiau penodol a manwl ar Gynlluniau Partneriaeth Ansawdd gwirfoddol a statudol ar gyfer bysiau, a chyflwynwyd rhagor o ganllawiau yn dilyn y prosiectau ar gydgysylltu'n well y bu i Lywodraeth Cymru eu hariannu yn 2014-15 ym Mro Morgannwg a Cheredigion.

Gan adeiladu ar sail y dogfennau a'r canllawiau presennol hyn, ynghyd ag arferion, bydd y gweithdai a drefnwyd ar gyfer yr hydref hwn yn canfod pa rwystrau a all fod yn dal yn atal awdurdodau lleol rhag creu partneriaethau gwirfoddol a/neu statudol â gweithredwyr bysiau, a mwy o bartneriaethau, a rhai agosach, â'u cymdogion. Yn ogystal, bydd y rhai sy'n bresennol yn cael eu hatgoffa am y canllawiau sydd ar waith eisoes.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

7 Asesiad o'r ystod lawn o offer sydd ar gael a pha mor ddefnyddiol y gallent fod wrth fynd i'r afael ag effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys: gweithredu cynlluniau parcio a theithio, taliadau i leddfu tagfeydd, taliadau parcio uwch, ardollau parcio yn y gweithle, a mesurau blaenoriaeth i fysiau.

Ymateb: Derbyn

Bydd y pwyntiau penodol hyn yn cael sylw yn ystod y gweithdai a drefnwyd ar gyfer hydref 2017. Fel rhan o'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau, cafodd cyngor i awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a luniwyd gan ymgynghorwyr trafndiaeth *The TAS Partnership* ei gyhoeddi yn 2015. Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor defnyddiol eisoes ar ymyriadau a ariennir sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar y broses o ddarparu gwasanaethau bysiau lleol.

Byddwn yn dosbarthu dolenni at y ddogfen hon i Awdurdodau Lleol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ystyriaeth

8 Cynlluniau ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol i annog newid moddol mewn dewisiadau trafndiaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod yr heriau unigryw a gyflwynir gan wahanol leoliadau. Rhaid i hyn werthu manteision teithio ar fws lle mae hwn yn opsiwn ymarferol. Mae annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio eu ceir o blaid bysiau yn gam hollbwysig wrth ddarparu gwasanaeth bysiau cynaliadwy, o ansawdd uchel, dibynadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Gan adlewyrchu ei fuddiant uniongyrchol a masnachol, byddwn yn ceisio cynigion gan y diwydiant bysiau ynglŷn ag ymgyrch farchnata ledled Cymru i dynnu sylw at fanteision deniadol y rhwydwaith bysiau presennol. Byddwn yn cyfrannu at ei chost, y bydd y diwydiant bysiau'n talu swm cyfatebol ar ei chyfer.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chynllun peilot sy'n cynnig teithiau di-dâl ar wasanaethau TrawsCymru ar benwythnosau, a fydd yn rhoi cronfa dystiolaeth gref inni y byddwn yn gallu ei defnyddio i asesu effaith teithiau di-dâl yn wrthrychol o ran:

- Tueddfryd teithwyr presennol ar drafnidiaeth gyhoeddus, y rhai nad ydynt yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu deithwyr achlysurol, i deithio'n amlach ar wasanaethau TrawsCymru a gwasanaethau bysiau lleol eraill y tu allan i gyfnodau'r cynllun treialu, a ph'un a yw'r cynllun treialu'n ysgogi unrhyw newid moddol a gynhelir dros y tymor hwy;
- Y dewis moddol mewn ardaloedd gwledig lle y darperir gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da ar lwybrau allweddol;
- Yr effaith economaidd ehangach ar gymunedau a busnesau gwledig yn sgil mwy o wariant ar nwyddau a gwasanaethau lleol gan bobl sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ddi-dâl fel rhan o'r cynllun treialu;
- Yr effaith y mae llai o amser aros yn ei chael o ran hyd teithiau, o ystyried bod y gosb amser sy'n gysylltiedig â chasglu taliadau tocynnau wedi'i dileu.

Bydd y cynllun treialu hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth am rwydwaith TrawsCymru, yn annog pobl i roi cynnig ar ei wasanaethau'n ddi-dâl, yn creu twf yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau TrawsCymru sydd â chost yn ystod yr wythnos, ac yn cryfhau'r ewyllys da a'r boddhad ar wasanaethau ymysg defnyddwyr presennol y rhwydwaith drwy eu cynnwys mewn digwyddiad teithio di-dâl.

Cychwynnodd y cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2017; o ganlyniad, ychydig o ddata sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn canfod effaith y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn caffael adolygiad annibynnol o'r cynllun peilot a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau pan fo'r gwaith wedi'i gwblhau. Bydd y rhain yn llywio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n hyrwyddo gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith